**Ysgogiad o Ewrop.**

Yn yr cyfnod pan fydd y gwleidyddion yn parhau i drafod y cwestynau dyrys ynglŷn â Brexit, mae'n ddiddorol nodi fod Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop yn hyrwyddo cydweithio yn lleol ac yn rhyngwladol i geisio gwell ymateb i sefyllfa'r ffoaduriaid. Cynhaliwyd cynhadledd yn Sweden ddiwedd Ebrill i sylwi ar arferion amrywiol eglwysi yn Ewrop, ac un o'r canfyddiadau a sylwyd arnynt oedd bod awydd i fod yn groesawgar tuag at ffoaduriaid, gan hawlio fod hyn yn ddysgeidiaeth Feiblaidd o bwys. Er bod llywodraeth Prydain wedi addo arian i gynorthwyo'r Cynghorau Sirol i gartrefu ychydig o'r ffoaduriaid hyn, prin bod yna frwdfrydedd amlwg ar draws gwledydd Prydain i ruthro at y dasg. Pe na bai rhyfel Syria yn benodol a rhyfeloedd cartref yn gyffredinol dros y pump i ddeg mlynedd ddiwethaf wedi arwain at y symudiad rhyfeddol o ffoaduriaid, tybed a fyddai bleidlais o blaid Brexit wedi llwyddo i'r graddau y gwnaeth hi?

Teithiodd y cynhadleddwyr yn Sweden i dref Laxa, ardal a welodd ddi-boblogi syweddol yn y wlad, a deall i'r trigolion groesawu nifer dda o ffoaduriaid, nid yn unig i ddefnyddio'r tai gwag, ond i weld bywyd newydd yn dod i'r gymuned. Ymwelwyd wedyn â thref mwy o'r enw Orebro, a welodd tlodi sylweddol. Byddai'n hawdd iddynt hawlio nad oedd ganddynt yr adnoddau priodol i groesawu mewnlifiad, ond gwelwyd fod yr eglwysi yn bwrw iddi i drefnu cynhaliaeth ac yn arbennig addysg i'r haen ifancaf o'r ffoaduriaid. Byddai'r arddegwyr yn y dref yn darparu gwersi a hyfforddiant i blant ac ieuenctid o blith y ffoaduriaid. Efallai bod y tlodion yn barotach i gydymdeimlo a darparu ar gyfer eraill sy'n dlawd ac yn ddi-rym yn y byd, ac mai'r breintiedig a'r cyfoethog sy'n dal nôl ac yn wfftio'r anghennus. Bydd ymateb y sawl sy'n byw yn agos i'r canolfannau derbyn lluosog yn Ewrop yn siwr o fod yn wahanol fel y gwelwyd yn ardal Calais, ond prin fod hynny yn agwedd gyfrifol chwaith. Mae llawer gan drigolion Laxa a Orebro i'w dysgu i ni. Sefydlwyd mwy o grwpiau bellach i groesawu ffoaduriaid i'n plith a bydd Citizerns Cymru yn fwy na pharod i gyfarwyddo grwpiau o eglwysi gyda'r gwaith.

Newyddion arall a ddaeth o Ewrop oedd penodiad Dr Mike Pears i arwain y gwaith IBTSC, canolfan addysg ac ymchwil y Bedyddwyr yn Ewrop. Cafodd brofiad helaeth yn y weinidogaeth, yn Llundain, Vancouver, Frankfurt, Sofia, a Bryste. Mae ganddo gryn brofiad o weithio mewn ardaloedd difreintiedig ac mae'n awyddus i ddatblygu'r drafodaeth o berthnasedd diwylliant ac ysbrydolrwydd, nid yn unig yn Ewrop ond ar draws y Dwyrain Canol ac Affrica. Gwyddom yng Nghymru am ein treftadaeth ddiwylliannol ac ysbrydol Gymraeg. Bu ein hymgyrchu dros hawliau'r Gymraeg yn amlwg yn ein plith ers degawdau, a daw'r her i ni drafod ymhellach, beth sydd gan yr eglwys i'w ddweud wrth y genhedlaeth ifanc gyfoes nad oes ganddynt ddiddordeb yn y ffydd Gristnogol. Nid yw ein cyflwyniad ni o 'ysbrydolrwydd y ffydd', a'n gwedd 'gymdeithasol o grefydda' yn ymddangos yn berthnasol i genhedlaeth bodlon eu byd. Collodd cynnifer o'n hegwlysi yr ysgolion Sul a'r Cyrddau Gweddi. Bydd eglwysi yn ddigon parod i fyw ar un oedfa'r Sul, a thybied eu bod yn ffyddlon i'w Harglwydd. Collwyd yr awch ysbrydol y nein plith.

Mae trydydd ddarn o newyddion, a ddaw o gyfeiriad Federasiwn Bedyddwyr Ewrop, yn sôn am y tŵf sydd yn Israel. Nid yw'r wlad yn perthyn yn ddaearyddol i Ewrop ond mae'n rhan o'r

Ffederasiwn.  Bydd y gymuned Fedyddiedig o eglwysi yno yn dathlu cynnydd ymysg yr ifanc ac mae ganddynt dair merch sy'n cyd-lynu y gwaith ymysg yr eglwysi ar ran yr undeb.  Pa sawl swyddog sy'n perthyn i'n hundeb yng Nghymru ac i ba raddau byddai croeso iddynt yn ein plith, nid i wneud y gwaith o genhadu ymysg yr ifanc ond i weld bod yr adnoddau priodol ar gael ar gyfer y gwaith. Dyma fentergarwch mewn gwlad sy'n rannedig yn wleidyddol ac yn grefyddol, ond eto yn llwyddo i ddenu diddordeb yr ifanc i gofleudio Efengyl hedd mewn gwlad ryfelgar.  Diolch am negeseuon calonogol o Ewrop a boed i ni i wrando mwy ar eu hanes.

*****

**25-28 April 2018, Götebro Study Centre, Sweden.**

On 25th April over thirty people from all over Europe gathered to consider the question of refugee integration in their communities. We came with different experiences and from countries with different attitudes towards refugees but we had one thing in common – a desire to take seriously the biblical mandate to welcome the stranger and to find practical ways of doing that in our particular situations.

We began our reflections by looking at the story of Ruth, perhaps the first success story of a refugee. We noted that Ruth had a 'mentor' (Naomi) to the new culture and that Boaz let her become part of the community. Ruth received enough help but not too much; she was given space to grow and create her own life. We also looked at some aspects of the triune God. Helpful ideas were of oneness and diversity, of community without uniformity. We learned that to live in harmony requires both movement and space. There are lessons for churches, many of which are mono-cultural. How do we need to change to allow refugees to be integrated and for them to feel at home?

The following day we had an opportunity to visit two places where refugees are integrating successfully. Our first stop was Laxa, a small town which had been declining. When refugees began to arrive there was plenty of cheap housing for them! In fact, the whole community has pulled together to welcome the refugees. Churches, the local authority and the football club are all involved in settling them in. The church runs a shop where goods are available cheaply and also a café, where some of the refugees do the cooking. The refugees have brought new life to the town and contributed to a sense of hope for the future.

Next we were off to the much larger town of Orebro. The district we visited is one of the most deprived areas in Sweden with poverty, unemployment, crime and extremism as some of its problems. Here we found a Folkshögskola, run by the church. This is a high school for older students to enable them to complete high school, something they did not do at the correct age for whatever reason.

Once they have finished the school, they can then apply for vocational training or higher education or a job with good chances of success. The school is attended by refugees and immigrants but also

other students who have dropped out at some point. It gives them hope and purpose as well as confidence and paper qualifications. Our visit ended with a delicious meal cooked by some local Iraqi women.

On the final day we heard more about experiences in different countries – issues of places where there are large refugee camps, where there is a war in progress, where immigration authorities are tightening regulations constantly. Each person had their own stories of good news alongside challenges. Lastly we attended a series of workshops dealing with questions of human rights, religious freedom and others where there were no easy answers, but a fruitful sharing of ideas and experiences.

We left, having learned a lot and made new friends. We had been greatly encouraged by hearing from each other and seeing how God is at work in all places and at all times building up his kingdom.

*****

**Ffurflenni sy'n hawlio sylw.**

Yn y cyfnod rhwng y Pasg a'r Pentecost bydd llawer o'n plith yn pwysleisio credo a chenhadaeth yr eglwys, a da hynny. Gwae unrhyw eglwys sy'n rhoi mwy o bwyslais ar agweddau materol a chyfundrefnol yr eglwys ar draul natur ffydd a meithrin pobl i ddilyn Iesu. Ar y llaw arall, clywn Iesu yn cymell ei gyfeillion i fod yn ddoeth a darbodus ac yn ystod y cyfnod diweddar hwn, cawsom ein hatgoffa o bwysigrwydd agweddau cyfreithiol ein heglwysi. Mae'n rhyfedd fel y bydd rhai eglwysi yn rhoi mwy o sylw i'r materol nag i'r ysbrydol wrth drefnu agenda Cwrdd Diaconiaid neu Gwrdd Eglwys.

Dros y blynyddoedd diweddar buom yn ymwybodol o'r angen am sicrhau na fydd unrhyw un yn gyfrifol am blant a phobl bregus os nad ydynt wedi eu hachredu a'u henwau wedi bod ger bron panel y DBS. (Disclosure and Barring Service -Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd). Cafodd llawer ohonom ein hachredu gan dderbyn tystysgrifau yn nodi nad oes rheswm i ni gael ein hamau gan yr heddlu, ac ein bod yn addas i gymryd rhan mewn gweithgareddau lle bydd pobl ifanc a / neu bobl oedrannus a bregus yn y cwmni. Yn anffodus bu enghreifftiau lle cyhuddwyd swyddogion mewn swyddi cyfrifol yn yr eglwysi, o fod wedi manteisio ar eu sefyllfa a chamdrin pobl eraill. Clywsom enghreifftiau tebyg mewn crefyddau erall a mudiadau seciwlar, a rhaid cydnabod bod angen i bob corff ac elusen dderbyn y drefn a chael pob unigolyn sy'n ymwneud â phlant a phobl bregus i'w hachredu drwy gyfundrefn y DBS.

Tristwch y sefyllfa gyfredol yw bod yna eglwysi sydd heb ddilyn y drefn, na diweddaru'r broses o achredu. Mae'r gofyn yn un cyfreithiol, ac mae methu gwneud hyn yn dor-cyfraith. Bu amryw o'n plith yn esgeulus a di-hid yn y gorffennol, ac mae'r Annibynwyr, y Presbyteriaid a'r Bedyddywr wedi bod yn cydweithio i gynnal y broses o sicrhau y drefn achredu yn ein plith. Diolchwn i'r swyddogion enwadol am eu hymdrechio a derbyniwn na wnaethom fel unigolion ac eglwysi roi'r sylw priodol i

hyn. Gobeithio bydd y Cymanfaoedd o blith Undeb Bedyddwyr Cymru yn rhoi sylw i'r mater hwn yn eu Cyfarfodydd Blynyddol dros yr wythnosau nesaf, ac yn cymell eglwysi i ail-ddarllen llenyddiaeth Undeb Bedyddwyr Cymru a cheisio gweithredu ar y mater mor fuan ac sy'n rhesymol.

Pwnc arall sy'n hawlio ein sylw yw Diogelwch Data (Data Protection) oddi fewn yr eglwysi ac ar draws yr enwadau. O ganol mis Mai ymlaen, bydd gofyn bod pob un sy'n cadw gwybodaeth bersonol am unigolion eraill yn cymryd sylw o hyn ac yn cydymffurfio gyda'r drefn. Bydd angen bod pob eglwys yn swyddogol yn mabwysiadu dogfen bolisi briodol ac yn ceisio caniatad eu haelodau i gytuno bod unrhyw a phob gwybodaeth bersonol yn cael ei barchu a'i ddiogelu. Bydd hyn yn cynnwys cyfeiriadau cartref a chyfeiriadau ebost, rhifau ffôn a manylion banc gan addo peidio a rhannu'r wybodaeth gydag unrhyw gorff arall. Bydd peth gwybodaeth yn cael ei ystyried yn angenrheidiol, megis manylion banc person sy'n dymuno cyfrannu drwy orchymyn banc. Gellir cynhyrchu taflen bwrpasol i'r aelod neu'r cyfrannwr ei lofnodi fel bod y caniatâd yn cael ei roi. I'r mwyafrif o aelodau ac eglwysi, ni fydd gofyn am fwy na'r caniatad syml hwn, yn arbennig am wybodaeth neu gyhoeddiadau sy'n berthnasol i deulu'r eglwys. Yn dechnegol, ni ddylid fod yn ail-ddosbarthu gwybodaeth a ddaw oddiwrth gorff allannol a'i gynnig ar ebost onibai fod yr aelod wedi cytuno i hyn. Nid oes eglurder hyd yma am sawl gwedd o'r pryderon hyn, a nodwn mai proses yw'r drafodaeth hon ac nad oes disgwyl cael atebion terfynnol erbyn canol Mai. Mae'n bwysig bod pob cyfundrefn yn dechrau ar y broses mor fuan a bo modd, gan dderbyn y gallai fod yn fisoedd cyn bod popeth wedi dod i fwcl. Ni allwn 'sgubo'r pwnc o dan y carped gan dybied nad yw'n berthnasol i ni. Mae'n berthnasol i bawb, o Facebook a Twitter, i'r grwp cadw'n heini lleol. Gobeithio bydd pob Cymanfa yn rhoi gofod i gyflwyno'r mater i gynrychiolwyr yr eglwys ac y bydd swyddogion pob eglwys yn ail-edrych ar y cyfarwyddiadau gwreiddiol a ddaeth o gyfeiriad y Llwyfan ar dderchau'r flwyddyn (taflen lliw melyn).

*

**A oes gwarineb mewn gwleidyddiaeth?**

Cyhoeddwyd yn ddiweddar bod pobl ifanc rhwng 16 ac 17 yn mynd i dderbyn pleidleisiau ar gyfer yr etholiadau lleol nesaf yng Nghymru. Rhaid croesawu hynny gyda brwdfrydedd. Un o ofidiau ein hoes yw diffyg diddordeb pobl yn gyffredinol mewn etholiadau a materion cyfoes. Pam tybed? Ai oherwydd bod haenau o bobl yn ddi-hid mewn etholiadau yn benodol, neu eu bod wedi syrffedu gyda'r modd bydd y llywodraethau – a hynny ar bob lefel, yn ymddangos yn amherthnasol i'r boblogaeth gyfan.

Ffenomena ein hoes yw bod gwleidyddiaeth wedi troi yn syrcas, gyda phersonoliaethau yn bwysicach na pholisiau. Bydd y sawl sy'n pleidleisio, yn gwneud hynny yn unol a'u greddf neu eu magwraeth, ac nid wedi pwyso a mesur egwyddorion a pherthnasedd y polisïau sy'n cael eu cynnig. Faint ohonom sy'n deall beth sy'n digwydd ar lwyfan trafodaeth Brexit bellach? Mae'n gawdel o fytheirio ac ni ellir deall y drafodaeth gan nad yw aelodau'r pleidiau gwleidyddol yn canu yr un alaw â'i gilydd, heb sôn am geisio cyflwyno barn gytbwys ac ymarferol yn enw gwledydd Prydain. Pa ryfedd fod dihidrwydd yn bla?

Yn y Cynulliad yng Nghaerdydd ceir mwy o ddrama ymysg y personoliaethau nag sydd o olrhain yr hyn sydd er lles ein gwlad. Roedd parch a goddefgarwch yn nodwedd yn y trafodaethau yn ystod y ddegawd gyntaf, ond cafwyd enghreifftiau yn ddiweddar o iaith atgas ac amharchus, fel ein bod yn ymdebygu i'r talyrnau ymladd ceilogod yn y gorffennol pell. A yw ein cynghorau sirol yn well ac yn fwy gwaraidd? Yn ôl yr hyn a glywn, mae'r iaith a'r bytheirio atgas yn cael rhwydd hynt i hogi arfau yn y mannay hynny hefyd. Nid dwylo caeedig i baffio sydd eu hangen mewn gwleidyddiaeth, ond dwylo agored sy'n chwilio am y ffyrdd gorau o gynnal ein gilydd fel cymunedau a chenhedloedd, er mwyn helpu i godi safonau a gwella ansawdd byw pawb, pa wlad bynnag maent yn byw.

Sut felly bydd yr arddegwyr yn dysgu beth yw democratiaeth? Heb os, mae angen addysgu ar bawb ar sut i arfer democratiaeth iach, i dderbyn bod anghydweld rhwng pobl a'i gilydd, gyda mwy nag un safbwynt rhesymol i bob trafodaeth. Gwelwyd enghreifftiau o bobl yn gweiddu ar ei gilydd, ac mae'r rhaglenni teledu sy'n trafod gwleidyddiaeth yn barod i chwilio am ddrama o wrthdaro, gydag un ochr yn gwneud haeriadau bod pleidiau eraill yn dweud celwydd. Ai sioe ddifyrrwch yw gwleidyddiaeth yntau fforwm o drafod cyfrifol ac adeiladol, gyda phawb yn barod i geisio cyfaddawd gadarnhaol? Byddwn yn or-barod i lwytho cyfrifoldebau ddiddiwedd ar ysgolion, ac athrawon yn cario llawer gormod o feichiau cymdeithasegol ar eu hysgwyddau, heb yr amser na'r adnoddau priodol i addysgu plant yn eu priod feysydd.

Onid braf fyddai dweud fod y cyrff eglwysig yn ddemocrataidd eu hanian, ac yn gymodlon eu gwedd. Yr un gwahaniaeth amlwg rhwng y sefydliadau sifil a'r cyrff crefyddol yw bod penderfyniadau yr eglwysi 'o dan ddylanwad yr Ysbryd Glân' ac mae'r sawl 'a ddaeth ynghyd', sydd â'r cyfrifoldeb i benderfynnu ac nid pleidlais i bob aelod. 'Gathered community' yw'r term yn Saesneg, ac ymddiriedir y broses ddemocrataidd i'r bobl hynny. Y cyfarfod eglwys yw'r llais terfynol i bwrpas y cynulliad lleol, a'r gynhadledd flynyddol i bwrpas y corff cenedlaethol. Yn anffodus, ceir gormod o enghreifftiau o anghydweld cyhoeddus, hyd yn oed yn y cyrff crefyddol, a phobl yn pwdu am nad ydynt yn medru derbyn y drefn.

Pwy felly all addysgu cymdeithas i fod yn ddemocrataidd? Aeth y wasg gyhoeddus yn un-ochrog a phleidiol, ac nid oes ganddynt y modd na'r awydd i fod yn gytbwys wrth gyflwyno'r drafodaeth. Er pob clod i'r asiantaethau newyddion ym Mhrydain, ceir ymdrech gadarnhaol i fod yn gytbwys, er eu bod yn or-barod i hyrwyddo yr anghydweld heb bwysleisio y cytuno sydd rhwng y pleidiau â'i gilydd mewn sawl maes. Er mwyn ein plant a democratiaeth iach y dyfodol, ceiswn ddylanwadu ar ein gwleidyddion ar bob haen o lywodraeth, i fod yn gadarnhaol ac yn gymodlon, gan egluro'r polisiau, ac nid manteisio ar bob cyfle i ysgyrnygu dannedd a bod yn fileinig.

*

**Cyfiawnder i ferched. Beth ddigwyddodd i ferched Magdalen?**

Mae'n siwr bod pob cynulleidfa ar draws y byd wedi rhoi sylw i neges greiddiol y Pasg yn ystod y Suliau diwethaf, gan ganu emynau a fu'n datgan buddugioliaeth Iesu dros angau a phechod byd.

Dyna wedi'r cyfan yw hanfod yr Efengyl. Tebyg ein bod wedi canu am y gwragedd yn teithio tuag at y bedd, ac wedi cofio bod Ioan yn ein hatgoffa i Mair Magdalen weld Iesu tra roedd ef a Phedr yn dal heb gael y profiad na'r atgyfodiad. Byddwn yn gwerthfawrogi'r profiad rhyfeddol a gafodd Mair yn cyfarfod â'r garddwr, ond beth ddigwyddodd iddi wedyn. Ceir sylwadau am nifer o wragedd yn Llyfr yr Actau, ond ni fu tystiolaeth am Mair ei hun. Nid yw'n cael ei henwi gan Paul na'r awduron eraill yn y Testament Newydd. Eto gwelod y Pab Ioan Paul II i'w galw yn 'apostol o blith yr apostolion' gan mai hi oedd y llygad dyst cyntaf.

Prin bod lle i ddisgwyl y byddai'r eglwys wedi torri pob arfer y cyfnod a dyrchafu gwragedd yn gyfartal â dynion. Roedd Prisila a Lydia yn ddwy o'r amlycaf o arweinwyr eu cynulleidfaoedd yn yr Eglwys Fore, ac roedd proffil y gwragedd wedi codi ymhell uwchlaw gwragedd y ganrif gyntaf. Tristwch y traddodiad Cristnogol ym mwyafrif y gwledydd yw aros gyda'r dybiaeth bod y dyn yn ben ar yr eglwys. Ceir adnodau amlwg yn y Testament Newydd yn cyfleu hynny, ond adlewyrchu eu cyfnod diwylliant oedd hynny, ac nid yn cynnig rheol nac amod ar gyfer ein hamserau.

Bu'n rhaid aros nes 1992, chwarter canrif yn ôl, cyn bod yr Eglwys wladol yn Lloegr yn barod i ordeinio gwragedd yn offeiriaid, ond erbyn hyn ceir chwe esgob benywaidd yn Lloegr. Bu'n rhaid aros hyd at 2016 cyn bod Joanna Penberthy wedi ei neilltuo'n esgob yng Nghymru, a llynedd gwelwyd June Osborne yn derbyn yr un cyfrifoldeb yn Llandâf. Dyma ddwy wraig alluog ac yn gwbl addas a theilwng o'r cyfrifoldeb. Dathlwn y ffaith mai merch sy'n ysgrifennydd cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru, er mai siom yw cydnabod cyn lleied o weinidogion benywaidd sydd yn ein plith. Mae gan yr Annibynwyr yng Nghymru ganran ychydig yn uwch o weinidogion benywaidd, ond byddant hwythau hefyd yn falch o weld mwy o wragedd yn cael eu hysbrydoli i gynnig eu hunain i'r gwaith. Diolch bod eglwysi wedi gweld yn dda i droi at wragedd i fod yn ddiaconiaid a swyddogion yr eglwysi, ond mae llawer o le i wella. Erys ein gofid bod angen gwella y canran o gynrychiolwyr benywaidd ar ein pwyllgorau ac i brif-swyddi ein henwad.

Rhan o bryder cymdeithas yn gyffredinol yw bod gwragedd yn cael eu amharchu yn y gymdeithas, er nodyn cadarnhaol yw gweld merched yn hawlio cyflog cyfartal mewn diwydiannau lle bydd cytundebau unigol, fel yn y cyfryngau, ac nid yn talu cyflog am swydd, fel sydd ym myd iechyd ac addysg. Dros y flwyddyn ddiwethaf hefyd clywsom lais cadarnhach o blaid parchu merched ac nid disgwyl iddynt ddioddef ensyniadau rhywiol ac amharchus. Mae sgandalau o'r gorffennol yn dod yn amlycach i'n clyw, a rhaid yw i ni barchu hynny.

Beth felly am y dyfodol? Pryd bydd gan Gymru a Lloegr Archesgob benywaidd? Dim ond un archdderwydd benywaidd a gafwyd yng Ngorsedd Beirdd Cymru, a byddai'n braf clywed y bydd un arall yn fuan! Ceir yr ail brifweinidog benywaidd yn San Steffan, pryd fydd y cyntaf yng Nghymru? Pan fydd haneswyr y dyfodol yn gwerthuso'r hanner canrif cyntaf o'r ganrif hon, a fyddant yn gweld bod hawliau merched wedi cael eu cadarnhau. Gobeithio'n wir. Pe bai Mair Magdalen wedi bod yn amlycach yng nghofnodion Luc yn Llyfr yr Actau, ac i'r Eglwys ar draws y canrifoedd ym mhob cymuned wedi rhoi statws cyfartal i wragedd, tybed a fyddai'r amarch wedi cael ei ddioddef gan hanner y boblogaeth wedi bod mor arswydus. Deled y dydd, bydd yna Halelwia i gyfiawnder i'w glywed yn y gymdeithas, ac i ddynion a merched gael yr un parch led-led byd.

*

**Agor y ffenestri - Gwyddonydd yn cyfarfod Duw.**

Byddwn yn aml yn clywed pobl yn sôn nad ydynt yn medru bod yn Gristnogion oherwydd eu bod yn 'wyddonwyr'. Efallai byddai'n dda eu cyfeirio at Dr Dave, neu'r Parchg Dr David Gregory, sy'n weinidog yn Eglwys y Bedyddwyr, Croxley Green, yn Llundain ers 2010 a chyn hynny yn weinidog cynorthwyol Loughton Baptist, eglwys aml-ddiwylliannol yn Milton Keynes. Ganwyd ef yn Nottingham gan fyw i ddarganfod rhyfeddodau gwyddoniaeth gan gyrraedd ym mhen y rhawg goleg Leicester i astudio Ffiseg ac Astroffisgeg. Symudodd wedyn i Goleg yr Imperial yn Llundain as astudio achos stormydd, cyn mynd i weithio yn Swyddfa'r Met a Chanolfan Dywydd Ewrop. Tra yn y Coleg Imperial, cafodd brofiad o Dduw a daeth y gwyddonydd yn Gristion. Bellach mae'n llywydd Undeb Bedyddwyr Prydain (BUGB). Roedd ei anerchiad pan ddaeth i'r gadair eleni yn sôn am agor y ffenestri bod modd deall Duw drwy wyddoniaeth. Roedd am agor y ffenestri a gweld Duw yn y ffurfafen a thu hwnt. Mae'n gyfrannwr cyson i'r drafodaeth sy'n sôn am y 'Messy Church Does Science' project - part of the 'Scientists in Congregations'. Bu'n weinidog ers pymtheng mlynedd a dywed " mewn oes lle bydd gwyddoniaeth yn dylanwadu ar ein bywydau ac ar y byd, rwyf am chwilio mewn ffordd cadarnhaol am allu gwyddoniaeth i roi siap ar ffydd ac ysbrydolrwydd, gan ddarparu ffenestr y gall pobl o bob oed fedru cyfarfod gyda Duw".

*

**Marwolaeth Dr Billy Graham.**

Bu marwolaeth Dr Billy Graham, yn gyfle i grynhoi ein gwerthfawrogiad o enaid eithriadol a chyfraniad tra sylweddol ym mywyd a thystiolaeth yr eglwys. Prin bod modd ei gymharu gydag unrhyw gennad tebyg iddo yn ystod y ganrif ddiwethaf. Cwmpasodd John Treharne prif fannau fywyd y gŵr o Ogledd Carolina, UDA, a fagwyd ar fferm laeth ond a fu'n daer i hyrwyddo 'didwyll laeth y Gair', ar hyd ei oes faith. Clywsom nifer yn cynnig sylwadau difyr amdano ar y radio a'r teledu, mewn ysgrifau a datganiadau y cyfryngau torfol, a gwerthfawrogwn ei ymroddiad i waith y Deyrnas. Tybed faint ohonom sy'n gyfarwydd gyda'i hanes ac wedi ei glywed yn ei anterth. Ysgrifennodd dros dri deg o lyfrau ac mae'n siwr iddo lunio pamffledi ac erthyglau lu. Nid oes modd mesur yr hyn a gynhyrchwyd ganddo. Prin bod modd gwybod faint o bobl a'i clywodd yn pregethu dros y degawdau a dywedir bod dros 3.1 miliwn wedi ymgyflwyno eu hunain i Grist yn ystod yr ymgyrchoedd eithriadol o'i eiddo. Casglodd o'i gwmpas bobl i ddwyn trefn ar ei ymgyrchoedd yn marchnata ei lyfrau a'r deunydd fideo o'i bregethu. Bu gwaith Samaritan's Purse yn enghraifft ohono ef a'i deulu yn plethu gofal ymarferol dros yr anghennus a beth bynnag ein safbwyntiau diwinyddol, rhaid yw cydnabod ei gyfraniad ym mhob maes. Efallai nad oedd yn flaengar ar gychwyn ymgyrchoedd cyfiawnder i'r bobl croenddu yn yr Amerig, ond gwnaeth ei safbwynt yn ddigon clir gan gefnogi yr hyn roedd Martin Luther King yn ei gynrychioli. Ceir dyfyniadau ganddo yn edifarhau iddo ddangos ei liwiau gwleidyddol, a bod ar lwyfannau yng nghwmni'r Arlywyddion, ond dim ond dangos maint a phwysigrwydd y pregethwr yng nghyd-destun America gyfan oedd hynny.

Dywedir iddo ateb cwestiwn gan ei fab Franklin mai'r unig air a ddymunai am ei weld ar ei garreg fedd, oedd y sylw ei fod yn bregethwr. Mewn sgwrs arall dywedodd nad oedd yn ystyried ei hun yn bregethwr arbennig o dda, ond felly bydd y byd yn ei gofio. Cyflwynodd neges gyson a syml yn canolbwyntio ar angen pob un i gael perthynas bersonol a byw gyda'r Arglwydd Iesu. Faint bynnag o sgriptiau pregethau sydd gennym, sawl pregeth sydd mewn gwirionedd? Onid perygl llawer yw pentyrru llawer o eiriau heb ddweud fawr o ddim? Bydd yn destun sgwrs rhyngddom yn aml gan ofyn pwy fyddai y tri pregethwr amlycaf i ni eu gwrando, neu holi pwy yw ein hoff bregethwr. Beth bynnag ein hatebion i'r sgyrsiau hyn, byddai Dr Billy Graham yn debygol o ateb drwy ddewis person a bregethodd Iesu croeshoeliedig a atgyfododd o farwolaeth i fywyd. Dyna ddylai ateb pob yr un ohonom fod.

Pwy ohonom a glywodd erioed am y Parchg Mordecai Ham, pregethwr tanllyd a adawodd argraff fawr ar Billy Graham fel bod y mab fferm yn ymwybodol o'i angen ysbrydol, a bod Duw yn ei alw i'r weinidogaeth. Tybed beth oedd ym meddwl y Parchg Mordecai Ham wrth fynd i'r oedfa honno, ac a dybiodd iddo gyflwyno ei neges yn effeithiol. Faint ohonom sy'n mentro i bulpud a thraddodi neges yn disgwyl bod ymateb cadarnhaol ac ymroddiad llwyr yn debygol o ddigwydd? Beth yw dyhead a disgwyliad y pregethwr wrth agor y Beibl mewn oedfa? Sawl tro y clywsom am bregethwr yn dychwelyd o'i gyhoeddiad yn credu iddo gael oedfa ddiflas, ond bod yr oedfa honno wedi bod yn gyfrwng goleuo enaid rhywun yn y gynulleidfa drwy ras Duw. Rhaid i bob pregethwr fod wedi paratoi ei bregeth ynghyd â pharatoi ei hun i'w thraddodi ym mhob oedfa, a gadael y gweddill i bwrpas yr Ysbryd Glân. Os symlder y bregeth oedd yn bwysig i Dr Billy Graham, roedd hefyd yn amlwg yn sicr o'r hyn a bregethai. Nid llwyfan amheuaeth yw pulpud, ond lle i gadarnhau ffydd a man trosglwyddo hyder ac argyhoeddiad y pregethwr yn ei destun ac yn ei Waredwr. Dywedai'n gyson pan fydd ei gorff yn peidio anadlu, y byddai ef yn symud ymlaen 'i fyw mewn cyfeiriad newydd'.

Dywedir am Dr Billy Graham y pregethwr, ei fod yn 'cyffwrdd' gyda'i gynulleidfa, ac yn ei apêl ar y gwrandawyr i ymateb, byddent yn dod ymlaen a derbyn cyfarwyddyd i gysylltu gyda'u hegwysi lleol. Prin y gellir disgwyl i Dduw alw pregethwyr poblogaidd gydag apêl byd-eang bob blwyddyn, ond gweddïwn am weld rhywrai o'r newydd yn ymdeimlo a'r alwad i ddefnyddio y cyfryngau cyfoes i gyhoeddi yr un neges a bregethwyd gan genhadon ddoe gyda'r adnoddau a'r cyfryngau sy'n cyfathrebu'r ffydd i'r lliaws.